

Trefniadau cynllunio busnes

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru

Medi 2025

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei aildddefnyddio, rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwilio	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	10
1 Ynglŷn â'n gwaith	12
2 Gwybodaeth gefndir am Gyd-bwyllgorau Corfforedig	14

Ciplun archwilio

Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

- 1 Edrychwyd ar a oes gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru (CJC) drefniadau sy'n cefnogi ei broses gynllunio busnes flynyddol. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau i ddatblygu ei gynllun busnes blynyddol; sut mae'n cofnodi cynnydd wrth ei gyflawni; a threfniadau i fonitro ac adrodd arno.
- 2 Nid ydym yn edrych ar sut mae'r CJC yn perfformio yn erbyn ei gynllun busnes blynyddol.

Pam mae hyn yn bwysig

- 3 Mae yna lawer o resymau pam mae cael cynllun busnes blynyddol yn bwysig. Gall ddarparu cyfeiriad a ffocws i'r CJC. Gall nodi'r blaenoriaethau a'r camau y mae'n gobeithio eu cyflawni dros y tymor byr i gefnogi cyflawni ei nodau tymor canolig a hirdymor.
- 4 Gall cynllun busnes blynyddol gefnogi tryloywder trwy nodi beth mae'r CJC yn bwriadu ei gyflawni a sut mae'n mesur llwyddiant. Gall dangosyddion perfformiad a thargedau gefnogi monitro a gwerthuso rheolaidd. Gall helpu'r CJC i ddal swyddogion i gyfrif.
- 5 Gall monitro rheolaidd o gynllun busnes blynyddol trwy gydol y flwyddyn hysbysu'r CJC o gynnydd. Gall hefyd ei helpu i wneud penderfyniadau gwybodus os oes angen iddo wneud newidiadau.
- 6 Gall cynllun busnes blynyddol helpu'r CJC i benderfynu ble i ddyrannu ei adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau. Gall hefyd ddod â swyddogion at ei gilydd i weithio tuag at yr un blaenoriaethau.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 7 Fel corff cyhoeddus newydd, mae'r CJC yn datblygu trefniadau da i gefnogi ei broses cynllunio busnes flynyddol. Mae'n cymryd dull cydweithredol o ddatblygu'r cynllun busnes blynyddol ac yn defnyddio ystod o ddata i'w lywio. Mae'r CJC hefyd yn datblygu system gadarn i gofnodi ei gynnydd ac wedi sefydlu trefniadau i'w fonitro a'i adolygu. Mae rhai bylchau yn ei drefniadau, y mae'r CJC wedi ymrwymo i fynd i'r afael â nhw.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 8 Gwnaethom dri argymhelliad ar gyfer y CJC ar:
- fod yn glir ar ei amserlenni;
 - ddatblygu canllawiau i helpu swyddogion i ddefnyddio ei ap Power BI; a
 - gosod mesurau perfformiad.

Ein canfyddiadau

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn datblygu trefniadau da i gynhyrchu, monitro ac adrodd ar ei gynllun busnes blynyddol

- 9 Mae gan y CJC gynllun busnes blynyddol ac mae'n glir ar ei bwrpas. Mae'r CJC yn gosod cerrig milltir a dyddiadau allweddol ar gyfer datblygu'r cynllun, o'r cam cyntaf o gasglu tystiolaeth i gam olaf ei gyhoeddi. Gall cael y cerrig milltir a'r amserlenni hyn roi eglurder ar ddisgwyliadau'r sefydliad ynghylch datblygu'r cynllun busnes blynyddol.
- 10 Mae gan y CJC Fframwaith Perfformiad sy'n amlinellu ei ymagwedd at gyflawni ei gyfrifoldebau ac i'w helpu i ddeall sut mae'n perfformio. Mae'r fframwaith hwn yn esblygu wrth i'r CJC ddatblygu ac aeddfedu. Yn ystod 2025-26, mae'r CJC yn bwriadu gweithredu cynlluniau tîm i gefnogi'r nodau a nodir yn ei gynllun busnes blynyddol. Cynhyrchodd y CJC dempled i arwain swyddogion wrth ddrafftio cynlluniau tîm, ond mae cyflwyno'r cynlluniau hyn yn dibynnu ar recriwtio'r CJC i sawl swydd wag. Trwy ddarparu templed, gall gefnogi dull cyson wrth ddatblygu cynlluniau tîm a all hefyd gefnogi monitro ac adrodd ar gynnydd.
- 11 Mae gan y CJC swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu ei gynllun busnes blynyddol ac mae gan bob swyddog yn y CJC rôl yn ei gyflawni. Mae'r Fframwaith Perfformiad yn cynnwys 'Perfformiad Unigol: Cynlluniau Potensial Llawn (AFPs)'. Cynlluniau unigol neu AFPs yw'r cyswllt rhwng nodau'r CJC a gweithwyr unigol. Mae hyn yn darparu 'llynyn aur' o swyddogion unigol, hyd at gynlluniau tîm i'r cynllun busnes blynyddol. Cynhyrchodd y CJC dempled i unigolion a rheolwyr llinell ei gwblhau i sicrhau unwaith eto fod ymagwedd gyson ar draws y sefydliad. Dylai'r Cynlluniau Unigol helpu swyddogion i ddeall eu cyfraniadau eu hunain yn llawn yn ogystal â modd i'r CJC ddal swyddogion i gyfrif.

- 12 Mae gan y CJC dempled i arwain swyddogion ar sut i gwblhau cynlluniau tîm ac unigol. Er bod gan y CJC amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r cynlluniau unigol, nid yw'n glir pryd mae angen cynlluniau tîm. Gall gosod disgwyliadau clir ar gyfer pryd mae angen cwblhau cynlluniau tîm gryfhau'r broses gynllunio busnes flynyddol. Gall leihau'r risg nad yw'r cynlluniau hyn yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun busnes blynyddol.
- 13 Mae'r CJC yn defnyddio cyfoeth o ddata a deallusrwydd i lywio ei gynllun busnes blynyddol. Mae hefyd yn comisiynu ymchwil i feysydd lle mae bwch mewn gwybodaeth a data. Gall tynnu ar ystod o dystiolaeth roi dealltwriaeth dda i'r CJC o anghenion, risgiau a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.
- 14 Mae gosod y cynllun busnes blynyddol yn broses gydweithredol. Cynhaliodd y CJC sesiwn her gyda'r uwch dîm gweithredol, eu timau unigol ac aelodau CJC i drafod blaenoriaethau yn y dyfodol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd trwy drefnu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu blynyddol.
- 15 Mae aliniad da rhwng datblygu'r cynllun busnes blynyddol a'i adnoddau. Datblygodd y CJC y cynllun busnes blynyddol a'r gyllideb flynyddol ar yr un pryd i helpu i ddeall gofynion adnoddau cyflawni'r cynllun busnes blynyddol. Mae cynllun busnes blynyddol 2025-26 yn cynnwys trosolwg o'r gyllideb refeniw a'r ffynonellau cyllido.
- 16 Dywedwyd wrthym yn ystod yr archwiliad hwn nad oedd y CJC wedi derbyn unrhyw gyllid ychwanegol i gyflawni ei ofynion statudol fel corff cyhoeddus newydd. Pan ddrafftiodd y cynllun busnes blynyddol a'r gyllideb flynyddol, roedd yn cynnwys yr angen am swyddogion ychwanegol yn ei strwythur staff i fodloni ei ofynion statudol. Yn benodol, yr angen i ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Strategol. Er mwyn ariannu'r rolau newydd hyn, cymeradwyodd y CJC ddefnyddio £1.3m o gronfeydd wrth gefn. Gan nad yw'r dull hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir, cymeradwyodd y CJC adolygiad annibynnol i ddeall pa adnoddau sydd eu hangen arno i allu cyflawni ei ddyletswyddau statudol ochr yn ochr â'i uchelgeisiau yn y dyfodol.

- 17 Mae'r CJC yn monitro cyflawni ei gynllun busnes blynyddol yn rheolaidd. Mae cyfarfodydd tîm perfformiad misol yn dod â gwahanol dimau at ei gilydd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn trafod cynnydd prosiect a buddsoddiad, gyda chynnydd ar gyflawni'r cerrig milltir cynllun busnes blynyddol yn eitem agenda safonol. Ceir adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) a'r CJC. Mae'r trefniadau hyn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i swyddogion ac aelodau ddeall a herio cynnydd wrth gyflawni'r cynllun busnes blynyddol. Gall adrodd rheolaidd hefyd helpu'r CJC i wneud penderfyniadau gwybodus os oes angen iddo wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn.
- 18 Datblygodd y CJC ap Power BI sy'n offeryn gwerthfawr wrth gofnodi, monitro ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni'r cynllun busnes blynyddol. Mae'n offeryn agored fel y gall swyddogion gael mynediad iddo ar unrhyw adeg i ddiweddarau ac i wirio cynnydd. Mae'n hyrwyddo tryloywder a dealltwriaeth o gynnydd ar draws y sefydliad. Mae'r CJC yn bwriadu gwella ymarferoldeb app Power BI ymhellach a datblygu canllawiau i helpu swyddogion i lywio'r offeryn hwn. Dylai'r canllawiau hyn yrru dull cyson o ddefnyddio'r offeryn ar draws y sefydliad. Gall canllawiau hefyd fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth gefnogi dechreuwyr newydd i'r sefydliad wrth i'r CJC recriwtio i'w swyddi gwag presennol.
- 19 Fodd bynnag, mae diffyg disgwyliad corfforaethol i sicrhau bod swyddogion yn diweddarau'r app Power BI mewn modd amserol. Gallai darparu eglurder negyddu'r sefyllfa pan fydd swyddogion yn mynychu cyfarfodydd perfformiad misol ac nad ydynt wedi diweddarau'r ap gyda chynnydd.
- 20 Mae'r cynllun busnes blynyddol 2025-26 yn cynnwys cerrig milltir allweddol. Mewn geiriau eraill, beth sydd angen digwydd ac erbyn pryd. Nid yw'n cynnwys mesurau, targedau na chanlyniadau. Er efallai na fydd y rhain yn berthnasol i bob gweithgaredd, gallant fod yn offeryn monitro defnyddiol i helpu i bennu cynnydd, cyflymder cyflawni a llwyddiant.

- 21 Wrth ddatblygu ei drefniadau cynllunio busnes blynyddol, mae'r CJC yn agored i ddysgu gan eraill. Edrychodd y CJC ar ranbarthau Lloegr, ond mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau cyfunol¹ ac nid ydynt yn uniongyrchol debyg i statws CJC yng Nghymru. Mae'r CJC hefyd ymhellach ymlaen yn ei drawsnewid o raglen Bergen Ddinesig o'i gymharu â'r tri CJC arall yng Nghymru. Mae'r CJC yn ymwybodol nad oes dull profedig iddynt ei ddilyn.
- 22 Wrth edrych ymlaen, mae'r CJC yn datblygu Cynllun Corfforedig pum mlynedd newydd 2026-2031. Mae'n bwriadu cynnwys swyddogion ac aelodau cyn i'r CJC ystyried hyn i'w gymeradwyo ym mis Hydref 2025 ynghyd â Chynllun Ariannol Tymor Canolig newydd. Yna mae'r CJC yn bwriadu datblygu cynllun busnes blynyddol 2026-27 a chyllideb flynyddol 2026-27 mewn pryd i'w gymeradwyo CJC ym mis Ionawr 2026. Mae'r CJC yn bwriadu datblygu mesurau perfformiad i gefnogi ei Gynllun Corfforedig pum mlynedd newydd. Gellid cynnwys y rhain yn y cynllun busnes blynyddol i ddangos dyheadau perfformiad a chyflawniadau ar gyfer y flwyddyn honno. Gall cynnwys mesurau perfformiad hefyd gefnogi'r CJC i benderfynu a yw'n cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud, ar y cyflymder sy'n ofynnol i gefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforedig pum mlynedd.

¹ Awdurdodau cyfun | Cymdeithas Llywodraeth Leol

Argymhellion

A1 Egluro amserlenni

- 1.1** Er mwyn sicrhau bod cynlluniau tîm yn cyfrannu at y broses gynllunio busnes flynyddol, mae angen i'r CJC nodi'n glir pryd y mae angen cwblhau'r cynlluniau hyn bob blwyddyn; a
- 1.2** Mae angen i'r CJC fod yn glir pryd mae'n disgwyl i swyddogion ddiweddarau'r app Power BI. Gallai darparu eglurder negyddu'r sefyllfa pan fydd swyddogion yn mynychu cyfarfodydd perfformiad misol ac nad ydynt wedi darparu diweddariadau.

A2 Datblygu canllawiau ar ddefnyddio'r app Power BI

Mae angen i'r CJC ddatblygu canllawiau i helpu swyddogion i ddefnyddio'r app Power BI. Dylai'r canllawiau hyn yrru dull cyson o ddefnyddio hyn ar draws y sefydliad. Gall canllawiau hefyd gefnogi dechreuwyr newydd i'r sefydliad wrth i'r CJC recriwtio i'w swyddi gwag presennol.

A3 Gosod Mesurau Perfformiad

Lle bo hynny'n briodol, dylai'r CJC osod mesurau perfformiad i helpu i asesu cynnydd a chyflymder cyflawni'r cynllun busnes blynyddol.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Edrychodd yr archwiliad hwn ar drefniadau'r CJs ar gyfer:

- datblygu ei gynllun busnes blynyddol;
- cofnodi cyflawniad ei gynllun busnes blynyddol; a
- monitro ac adrodd ar gynnydd ei gynllun busnes blynyddol.

Nid oedd yr archwiliad hwn yn edrych ar berfformiad y CJs.

Gwnaethom gwblhau'r archwiliad hwn yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2025.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Ceisiodd yr archwiliad hwn ateb y cwestiynau canlynol:

- A oes trefniadau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun busnes blynyddol?
- A oes trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei gynllun busnes blynyddol?
- A oes trefniadau i fonitro ac adolygu ei gynllun busnes blynyddol?

Meini prawf

Fe wnaethom asesu a yw:

- mae gan y CJC Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n nodi'n glir bwrpas cynllun busnes blynyddol;

- mae'r CJC yn nodi sut y bydd yn datblygu cynllun busnes blynyddol, gan gynnwys
 - pa wybodaeth sy'n llywio cynnwys y cynllun busnes blynyddol;
 - pwy sy'n gyfrifol am ei ddatblygu;
 - y gefnogaeth gan yr uwch dîm gweithredol; a
 - adnoddau'r cynllun busnes blynyddol.
- mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun busnes blynyddol;
- mae gan y CJC drefniadau i ddal a chofnodi cynnydd wrth gyflawni'r cynllun busnes blynyddol;
- mae mesurau i gefnogi monitro'r cynllun busnes blynyddol a phwy sy'n gyfrifol am fonitro; a
- Mae adroddiadau rheolaidd am gynnydd.

Dulliau

Fe wnaethom edrych ar ddogfennau a chyfweld â phobl allweddol yn y CJC.

2 Gwybodaeth gefndir am Gyd-bwyllgorau Corfforedig

Sefydlodd Llywodraeth Cymru bedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJCs) i helpu i gryfhau cydweithrediad rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol. Y pedwar CJC yw Gogledd Cymru; Canolbarth Cymru; - Orllewin; a De-ddwyrain Cymru.

Daeth CJCs i rym ym mis Ebrill 2021 drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae gan CJCs ddyletswyddau statudol i ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol. Mae ganddynt hefyd y pŵer i wella lles economaidd rhanbarthol ac mae ganddynt ddyletswyddau statudol.

Rhwng 2021 a 2024, trosglwyddodd CJC De-ddwyrain Cymru o'i statws Bargen Ddinesig flaenorol i gorff cyhoeddus newydd.

Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd CJC De-ddwyrain Cymru yn ei ail flwyddyn fel corff cyhoeddus newydd. Roedd ganddo 76 o swyddi yn ei strwythur staff. Roedd 19 neu 25% o swyddi yn wag gyda chwe swyddog mewn swyddi dros dro.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cyngorau a chyrrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English